

## PRICE, ROBERT (1655 - 1733), barnwr

**Enw:** Robert Price

**Dyddiad geni:** 1655

**Dyddiad marw:** 1733

**Priod:** Lucy Price (née Rodd)

**Plentyn:** Uvedale Tomkins Price

**Rhiant:** Margaret Price (née Wynne)

**Rhiant:** Thomas Price

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** barnwr

**Maes gweithgaredd:** Cyfraith

**Awdur:** William Llewelyn Davies

Ganwyd 14 Ionawr 1655, ail fab Thomas Price, Giler, plwyf Cerrig-y-drudion, a Margaret, merch ac aeres Thomas Wynne, Bwlchybeudy, yn yr un plwyf. O ysgol Rhuthyn aeth i Goleg S. Ioan, Caergrawnt, 28 Mawrth 1672, ond ymadawodd heb raddio a chael ei dderbyn yn Lincoln's Inn, 8 Mai 1673, a dyfod yn fargyfreithiwr ym mis Gorffennaf 1679. Cyhoeddwyd cofiant (defnyddiol ac eithaf diddorol) iddo, *The Life of... Robert Price ... One of the Justices of His Majesty's Court of Common-Pleas*, gan E. Curll, Llundain, yn 1734, a cheir manylion ei yrfa yn y *D.N.B.*; rhaid, felly, fodloni ar fraslun byr yma. Dechreuodd ei yrfa gyfreithiol pan ddewiswyd ef yn 'Attorney-general for South Wales,' 1682. Daeth yn gofiadur Maesyfed yn 1683, a bu'n dal amryw swyddi hyd nes y daeth yn farnwr cylchdaith Brycheiniog yn 1700. Fe'i dewiswyd yn un o farwniaid yr Exchequer, 24 Mehefin 1702, a daeth yn un o farnwyr llys y Common Pleas, 16 Hydref 1726. Cyn hyn yr oedd wedi ei enwogi ei hun yn y Senedd, lle bu'n aelod dros Weobley fwy nag unwaith, yn enwedig pan wrthwynebodd, 1695-6 - a hynny yn llwyddiannus - fwriad y brenin William III i roddi arglwyddiaethau Dinbych, Bromfield, a lâl i Hans Williams Bentinck, Is-Almaenwr a ffefryn arbennig gan y brenin a'i creodd yn iarll Portland. Daeth Price i gymaint enwogrwydd yn yr achos hwn nes ennill iddo'i hun y teitl 'the patriot of his native country.' Wedi i'r brenin farw cyhoeddwyd, 1702, dwy araith Price ar y mater hwn o dan y teitl [Gloria Cambriae: or the Speech of a Bold Briton in Parliament against a Dutch Prince of Wales](#) - gweler Somers, *Collection of Tracts*, 1814, xi, 387-93. Yr oedd Price yn gyfeillgar â [Robert Harley, iarll Oxford](#); gweler cyfeiriadau ato a llythyrau a ysgrifennodd at [Harley](#) yn Hist. MSS. Comm., *Rep. on the MSS. of the Duke of Portland*, iv-vi. Priododd, 23 Medi 1679, Lucy, merch hynaf Robert Rodd, Foxley, sir Henffordd, a bu iddynt dri phlentyn: yr aer oedd Uvedale Tomkyns Price. Argreffir manylion llawn am ei ewyllys gan E. Curll (op. cit.). Yr oedd yn gyfoethog a chanddo diroedd lawer yng Nghymru. Cododd a gwaddolodd d elusen i chwech o bobl dlawd ym mhlwyf Cerrig-y-drudion. Bu farw yn Kensington, 2 Chwefror 1733, a'i gladdu yn Yazzor, sir Henffordd.

### Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

## Ffynonellau

Enwyd y prif ffynonellau yng ngorff yr erthygl

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [11326591](#)

Wikidata: [Q15456412](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

